

**Arolygiad dan Adran 10  
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gynradd Nebo  
Nebo  
Gwynedd  
LL54 6EE**

**Rhif yr Ysgol: 6612081**

**Dyddiad yr Arolygiad: 13/03/06**

**gan**

**Wil Williams  
67644**

**Dyddiad Cyhoeddi: 18 Mai, 2006**

**Dan rif contract Estyn: 1109505**

**Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- \* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALLau);
- \* ysgolion cynradd;
- \* ysgolion uwchradd;
- \* ysgolion arbennig;
- \* unedau cyfeirio disgyblion;
- \* ysgolion annibynnol;
- \* addysg bellach;
- \* dysgu oedolion yn y gymuned;
- \* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- \* AALLau;
- \* addysg a hyfforddiant athrawon;
- \* dysgu yn y gwaith;
- \* cwmnïau gyrfaoedd; ac
- \* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- \* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- \* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2005 Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Nebo fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Nebo rhwng 13/03/06 a 15/03/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan William Edward Williams. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

**Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **llawn**.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	2
<b>Argymhellion</b>	7
<b>Safonau</b>	8
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	11
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	11
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	13
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	15
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	17
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	19
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	20
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	21
Dan bump oed	21
Cymraeg iaith cyntaf	23
Saesneg	24
Mathemateg	25
Gwyddoniaeth	26
Technoleg gwybodaeth	27
Dylunio a thechnoleg	28
Hanes	29
Daearyddiaeth	30
Celf	31
Cerddoriaeth	32
Addysg gorfforol	33
Addysg grefyddol	34

<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	<b>35</b>
<b>Atodiadau</b>	<b>36</b>
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	36
2 Data a dangosyddion ysgol	37
3 Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol	38
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	39
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	40

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir yr ysgol yng nghanol pentref bychan Nebo sydd ryw dair milltir o Benygroes. Daw mwyafrif helaeth o'r disgyblion o'r pentref ei hun neu o'r ardal wledig o gwmpas.
2. Mae'r ardal yn Gymreig ei hiaith a'i diwylliant ac mae bron i dri chwarter o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref gyda mwyafrif helaeth o'r gweddill bellach yn siarad y Gymraeg i safon mamiaith.
3. Yn dilyn cyfnod o leihad, mae'r niferoedd disgyblion bellach ar dwf ac yn debygol i barhau i gynyddu dros y tair blynedd nesaf. Yn ystod yr arolygiad, roedd 20 o ddisgyblion llawn amser yn yr ysgol ynghyd â saith o blant meithrin rhan-amser. Fe'u haddysgir gan y pennaeth, un athrawes llawn amser ac un arall ran amser.
4. Disgrifir yr ardal fel un nad yw yn freintiedig nac yn ddifreintiedig er bod 34% o'r disgyblion gyda'r hawl i dderbyn cinio di-dâl. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ganran sirol a chenedlaethol.
5. Cynrychiolir yr ystod lawn o allu yn yr ysgol. Yn ôl yr Asesiad Sylfaen, mae cyrhaeddiad y disgyblion yn agos i'r normau sirol pan ddechreuant eu haddysg llawn amser. Mae 17% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae un ohonynt â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.
6. Ers yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2000, penodwyd athrawes newydd i addysgu Cyfnod Allweddol Un a phlant dan bump. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Ionawr, 1990.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Mae blaenoriaethau a thargedau'r ysgol am y cyfnod 2006-2007 yn cynnwys:
  - Gwella safon llafaredd a sillafu Cymraeg;
  - Datblygu egwyddorion Webster Stratton a lledaenu'r arferion da i ddosbarth Cyfnod Allweddol 2.
  - Darparu gweithgareddau rheolaidd er mwyn ysgogi ymwybyddiaeth y disgyblion o fenter a busnes a chryfhau cyswllt yr ysgol gyda diwydiant.

## Crynodeb

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

8. Mae barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol.

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3 Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 3
7 Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

### Safonau

9. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	86%	14%	0%	0%

10. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Gradd
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

11. Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

<b>Meysydd dysgu</b>	<b>Cyfnod Allweddol 1</b>	<b>Cyfnod Allweddol 2</b>
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Saesneg		Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 3
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 3
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 3
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 3

12. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
13. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth a'u medrau ac yn cyrraedd y targedau a bennir ar eu cyfer. Gwna'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.
14. Yn y medrau allweddol, gwna'r plant dan bump a disgyblion Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu, eu medrau mathemategol a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
15. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda gyda nifer helaeth ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhwydd i nifer o bwrpasau.
16. Dengys canlyniadau'r ysgol dros y tair blynedd cyn yr arolygiad, bod cyrhaeddiad disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn sylweddol uwch na'r perfformiad cenedlaethol tra bod canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 yn agos at y normau cenedlaethol.
17. Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu dysgu ac yn eu medrau personol a chymdeithasol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddysgu, cydweithiant yn rhwydd yn y gwersi ac maent yn barod iawn i drafod ac i wrando ar syniadau disgyblion eraill.
18. Mae safonau ymddygiad drwy'r ysgol yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu'r disgyblion a'r oedolion eraill sydd o'u cwmpas.

19. Amrywiodd canran presenoldeb yr ysgol dros y tri thymor llawn diwethaf rhwng 92% a 95.5%. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o ddsbarth i ddsbarth na rhwng bechgyn a merched. Daw'r disgyblion yn brydlon i'r ysgol.
20. Pan gânt gyfle, gall disgyblion y ddau gyfnod allweddol weithio'n annibynnol a chyfarwyddo eu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mae tueddiad i wneud gormod drostynt ac i beidio â rhoi cyfrifoldeb personol iddynt dros eu dysgu.
21. Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol.
22. Mae disgyblion o bob oedran yn parchu'r amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal ac o degwch.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

23. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
0%	71%	29%	0%	0%

24. Mae perthynas gwaith da a pharch amlwg rhwng disgyblion ac athrawon. Ymdrinnir â phawb yn deg ac mae disgwyliadau uchel o ran hunanddisgyblaeth.
25. Pan fo'r addysgu'n dda, rhennir nodau'r wers gyda'r disgyblion ac fe'u defnyddir yn effeithiol yn y sesiwn gloi ar gyfer adolygu ac asesu cynnydd. Cyflwynir y gwersi mewn ffordd ddychmygus ac mae'r esboniadau'n eglur a'r holi'n dreiddgar.
26. Prin yw'r cyfleoedd a ddarperir yn y ddau gyfnod allweddol i ddisgyblion gynllunio a threfnu eu gwaith eu hunain. Mewn nifer fach o wersi, nid yw ffocws yr addysgu'n ddigon clir.
27. Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn dda. Mae'r disgyblion yn deall diben asesu ac yn ymwybodol o'r targedau gwella a bennir ar eu cyfer. Mae'r adroddiadau blynyddol a ddarperir i'r rhieni o ansawdd da.
28. Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn eang a chytbwys ac yn llwyddo'n dda i ddiwallu anghenion a diddordebau'r dysgwyr. Mae cynlluniau gwaith yn bodoli ar gyfer addysgu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt o ansawdd dda.
29. Rhoddir sylw da i ddatblygu'r medrau sylfaenol a'r medrau allweddol ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau dwyieithog y disgyblion yn effeithiol.

30. Cyfoethogir y cwricwlwm gan nifer dda o ymweliadau addysgol. Cyfrannant yn sylweddol at ddatblygiad addysgol a chymdeithasol y disgyblion.
31. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol dysgwyr. Mae'r cyfnodau 'Ysgol Dina' a'r sesiynau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a phersonol y disgyblion yn dda.
32. Mae trefn bendant ar gyfer gosod gwaith cartref yng Nghyfnod Allweddol 1 ond nid oes trefn gyffelyb yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn peri anawsterau i rieni'r plant hŷn o ran gwirio a chefnogi gwaith eu plant.
33. Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi gwaith yr ysgol ac yn gefnogol iawn i'w holl weithgareddau.
34. Mae cysylltiadau da gydag ysgolion cynradd lleol eraill a chydag ysgol uwchradd y dalgyloch.
35. Mae cysylltiadau da â byd gwaith ond prin yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddatblygu medrau menter y disgyblion.
36. Mae nodweddion rhagorol yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy ac mae'r disgyblion wedi cymryd rhan flaenllaw mewn nifer o flaengareddau lleol. Darperir cyfleoedd niferus i'r disgyblion drafod digwyddiadau byd eang ac i ystyried amgylchiadau byw pobl mewn gwahanol rannau'r byd
37. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion yn nodwedd ragorol. Mae'r disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol, cânt eu hannog i siarad am eu teimladau a gwyddant y bydd gwrandawriad da iddynt.
38. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol. Adnabyddir anghenion ychwanegol disgyblion yn fuan a chedwir golwg rheolaidd ar eu cynnydd.
39. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i hyrwyddo iechyd a diogelwch a chyfleoedd cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

40. Mae'r pennaeth yn cydlynu gwaith yr athrawon a'r llywodraethwyr yn effeithiol er mwyn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Cefnogir y pennaeth yn dda gan y staff addysgu.
41. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn chwarae rôl weithredol yn ei datblygiad. Cyflawnant eu rôl monitro ac arfarnu'n effeithiol drwy ymweld â dosbarthiadau'n rheolaidd.

42. Mae trefniadau hunan-arfarnu cynhwysfawr wedi'u sefydlu yn yr ysgol ond nid yw rhai arfarniadau pynciol yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi rhoi sylw digonol i safonau cyflawniad y disgyblion.
43. Nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer canfod barn y rhieni am yr ysgol yn y trefniadau hunan-arfarnu.
44. Mae'r Cynllun Datblygu o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol dros y tair blynedd nesaf.
45. Mae ystod dda o brofiad ac arbenigedd gan yr athrawon a gwneir defnydd effeithlon ohonynt. Mae cyflenwad digonol o adnoddau dysgu.
46. Mae cyflwr adeilad yr ysgol yn gyffredinol dda ac mae'r ystafelloedd o faint digonol i nifer presennol y disgyblion. Cyfoethogir amgylchedd yr ysgol gan arddangosfeydd chwaethus a diddorol sy'n cynorthwyo'r disgyblion yn eu dysgu.
47. Rheolir adnoddau'r ysgol yn effeithlon gan y pennaeth a'r corff llywodraethu er mwyn sicrhau gwerth am arian.
48. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael a phump o'r chwe Mater Allweddol a nodwyd yn Adroddiad 2000. Mae rhai mân ddiffygion yn parhau yn Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i'r Rhieni.

## Argymhellion

- A1 Codi disgwyliadau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn y meysydd y dyfarnwyd Gradd 3 iddynt trwy roi sylw i'r diffygion a nodwyd.
- A2 Gwella ansawdd proses hunan arfarnu'r ysgol trwy roi mwy o sylw i safonau cyflawniad disgyblion.
- A3 Lleihau dibyniaeth disgyblion ar oedolion a darparu mwy o gyfleoedd iddynt gynllunio a threfnu eu gwaith eu hunain.
- A4 Sefydlu trefn fwy rheolaidd o osod gwaith cartref i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddisbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

49. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
50. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	86%	14%	0%	0%

51. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Gradd
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

52. Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Saesneg		Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 3
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 3
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 3
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 3

53. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

54. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth a'u medrau ac yn cyrraedd y targedau a bennir ar eu cyfer. Yn gyffredinol, mae cyflawniad disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn rhagori ar gyflawniad disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Gwna'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.
55. Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol gynnydd da yn yr holl fedrau allweddol. Maent yn trafod, darllen ac ysgrifennu yn eu mamiaith yn hyderus ac yn defnyddio eu medrau mathemategol gyda chywirdeb cynyddol. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi eu dysgu.
56. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda. Gwna dysgwyr y Gymraeg gynnydd da yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith ac erbyn diwedd B6, mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn nifer o gyd-destunau cwricwlaidd.
57. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn 2005, yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda phob disgybl yn llwyddo i gyrraedd Lefel 2 neu uwch yn y tri phwnc craidd.
58. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2005 yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y pedwar pwnc craidd ac yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn pryddau ysgol am ddim. Gellir priodoli hyn i nifer fechan y grŵp ac i'r ganran uchel o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig oedd ynddo.
59. Dengys y canlyniadau dros y tair blynedd cyn yr arolygiad, bod cyrhaeddiad disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn sylweddol uwch na'r perfformiad cenedlaethol tra bod canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 yn gymharus â'r normau cenedlaethol. Mae perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol yn cymharu'n dda gyda pherfformiad ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn pryddau ysgol am ddim.
60. Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu dysgu ac yn eu medrau personol a chymdeithasol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddysgu gwybodaeth neu fedrau newydd ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn deall pwrpas a natur y tasgau dan sylw a gyda chymorth yr athrawon, gallant ddadansoddi cryfderau a gwendidau eu gwaith a nodi sut y gellir ei wella.
61. Cydweithiant yn rhwydd, maent yn barod iawn i drafod ac i wrando ar syniadau disgyblion eraill ac maent yn ystyriol o'u teimladau. Maent yn ymroddedig i'w gwaith ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser.
62. Mae safonau ymddygiad drwy'r ysgol yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu'r disgyblion a'r oedolion eraill sydd o'u cwmpas. O oedran cynnar, dangosant elfen uchel o hunanddisgyblaeth.

63. Amrywiodd canran presenoldeb yr ysgol dros y tri thymor llawn diwethaf rhwng 92% a 95.5%. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o ddosbarth i ddosbarth na rhwng bechgyn a merched. Daw'r disgyblion yn brydlon i'r ysgol.
64. Pan gânt gyfle, gall disgyblion y ddau gyfnod allweddol weithio'n annibynnol a chyfarwyddo eu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mae tueddiad i wneud gormod drostynt ac i beidio â rhoi cyfrifoldeb personol iddynt dros eu dysgu.
65. Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Cyflawnwyd gwaith celf o safon uchel ym mhob dosbarth.
66. Trwy gydol yr ysgol, mae'r disgyblion yn parchu'r amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal ac o degwch.
67. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o hanes, diwylliant a diwydiant eu bro. Caiff eu dealltwriaeth ei ddatblygu'n effeithiol trwy ymweliadau addysgol a'r cydweithio clos gyda'r gymuned leol.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

68. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

69. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	71%	29%	0%	0%

70. Mae'r berthynas waith dda a'r parch amlwg sydd rhwng disgyblion ac athrawon, yn meithrin dysgu effeithiol. Ymdrinnir â phawb yn deg ac mae disgyblion uchel o ran hunan-ddisgyblaeth.

71. Mae nifer o nodweddion da ym mhob gwrs. Llwydda'r athrawon i gymhell a chynnal diddordeb y disgyblion yn dda ac i ddarparu lefel uchel o gynhaliath iddynt wrth gyflawni eu tasgau. Mae'r rheolaeth ddisbarth yn effeithiol a chaiff gwaith y disgyblion ei fonitro'n gyson. Gwneir defnydd effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn atgyfnerthu'r addysgu a'r dysgu.

72. Mae'r athrawon yn cwrdd ag anghenion ieithyddol disgyblion yn effeithiol ac yn cynllunio cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu a defnyddio eu medrau dwyieithog.

73. Cyflwynir y gwrsi mewn ffordd wybodus a dychmygus, mae'r esboniadau'n eglur a'r holi treiddgar. Mae'r arferiad yng Nghyfnod Allweddol 1 o rannu nodau'r wers gyda'r disgyblion ac yna eu defnyddio yn y sesiwn gloi ar gyfer adolygu ac asesu cynnydd, yn rhoi ffocws clir i'r addysgu a'r dysgu ac yn galluogi'r disgyblion i arfarnu llwyddiant eu gwaith.

74. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio a threfnu eu gwaith eu hunain yn brin. Mewn oddeutu traean o'r gwrsi yng Nghyfnod Allweddol 2, nid oes ffocws digon clir i'r cyflwyniadau yn y gwrsi ac mae hynny yn amharu ar gyflymder yr addysgu ac yn cyfyngu ar yr amser sy'n weddill i'r disgyblion gwblhau eu tasgau. Mae diffyg arbenigedd mewn cerddoriaeth yn cyfyngu ar gyflawniad disgyblion Cyfnod Allweddol 2.

75. Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn dda ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd a darperir adborth llafar iddynt ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd.

76. Mae'r drefn ysgol gyfan o gofnodi cyflawniad a chynnydd disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth a gesglir i gynllunio camau dysgu nesaf disgyblion.

77. Mae'r disgyblion yn deall diben asesu yn dda. Gosodir targedau gwella ar gyfer pob un ohonynt a thrafodir y targedau hyn gyda hwy. Mae'r arfer yma yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ysgogi'r disgyblion i wella eu gwaith eu hunain.
78. Mae'r adroddiadau blynyddol a ddarperir i'r rhieni o ansawdd da ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Gwerthfawroga'r rhieni'r cyfle i drafod cynnydd eu plant gyda'r athrawon.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

79. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
80. Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn eang a chytbwys ac yn llwyddo'n dda i ddiwallu anghenion a diddordebau'r dysgwyr. Cydymffurfia'n llawn â'r gofynion statudol
81. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae ansawdd y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a 2 hefyd yn briodol i anghenion y disgyblion.
82. Mae cynlluniau gwaith ar gyfer addysgu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae ansawdd y mwyafrif helaeth ohonynt yn dda ac wedi'u strwythuro'n ofalus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r dysgu'r disgyblion. Serch hynny, mae bylchau yn y cynlluniau ynglŷn â sut y cyflwynir Saesneg a chelf yng Nghyfnod Allweddol 2.
83. Rhoddir sylw da i ddatblygu'r medrau sylfaenol ar draws yr ysgol. Er y caiff y medrau allweddol eu cyflwyno'n llwyddiannus ni chynllunnir ar eu cyfer yn fanwl o fewn y dogfennau cynllunio. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau dwyieithog y disgyblion yn effeithiol. Rhoddir pwyslais cadarn i'r dimensiwn Cymreig yn holl feysydd y cwricwlwm, yn arbennig yn y dyniaethau a'r pynciau mynegiannol.
84. Darperir cwricwlwm addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chânt gyfle llawn i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol.
85. Cyfoethogir y cwricwlwm gan nifer o ymweliadau addysgol sy'n cyd-fynd â'r gwaith cwricwlaidd a chyfrannant yn sylweddol at ddatblygiad addysgol a chymdeithasol y disgyblion.
86. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol dysgwyr. Mae'r cyfnodau 'Ysgol Dina' a'r sesiynau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a phersonol y disgyblion yn dda a'u galluogi i drafod materion sydd o bwys iddynt. Mae ethos yr ysgol hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion.
87. Mae trefn bendant ar gyfer gosod gwaith cartref yng Nghyfnod Allweddol 1. Mae'r tasgau a ddarperir yn cyfrannu'n dda at wella safonau gwaith y disgyblion ac yn atgyfnerthu'r gwaith dosbarth. Nid oes trefn gyffelyb yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae hyn yn peri anawsterau i rieni'r disgyblion hŷn o ran gwirio a chefnogi gwaith eu plant.

88. Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi gwaith yr ysgol ac yn gefnogol iawn i'w holl weithgareddau. Cefnogant yr ysgol yn dda a chodant arian sylweddol i gronfa'r ysgol. Ategwyd hyn gan ymatebion cadarnhaol y rhieni yn yr holiaduron cyn-arolygiad ac yn ystod cyfarfod y rhieni gyda'r tîm arolygu.
89. Mae'r cyfathrebu dydd-i-ddydd rhwng yr ysgol a'r rhieni yn effeithiol.
90. Mae cysylltiadau da gydag ysgolion cynradd lleol eraill a chydag ysgol uwchradd y dalgyloch.
91. Mae cysylltiadau da â byd gwaith ond nid oes polisi na strategaeth ysgol i lywio a chryfhau'r elfen hon. Atgyfnerthir gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwydiant a byd gwaith eu hardal trwy'r nifer dda o ymweliadau addysgol.
92. Mae cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos empathi tuag at eraill drwy gasglu at nifer fawr achosion da. Yn aml, y disgyblion eu hunain sy'n sbarduno casgliadau o'r fath.
93. Mae'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth addysgol. Ymwelwyd â chanolfan ailgylchu leol, mae rhan o gae'r ysgol wedi ei ffensio i alluogi grug naturiol y mynydd i ailsefydlu a chaiff gwastraff pydradwy ei osod mewn bin compostio. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy drwy ail-gyrchu papur, gwydr a metel.
94. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddatblygu medrau menter ac entrepreneuriaeth. Cynyddwyd dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd elw a cholled drwy gynhyrchu cardiau cyfarch a'u gwerthu mewn ffair ysgol. Rhoddwyd y cyfrifoldeb i Gyngor yr Ysgol o wario swm o arian yn ôl eu doethineb. Mae hyn yn arfer dda.
95. Darperir cyfleoedd niferus i'r disgyblion drafod digwyddiadau byd eang ac i ystyried amgylchiadau byw pobl mewn gwahanol rannau'r byd. Mae hyn yn gryfder amlwg yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn cyfrannu'n dda tuag at godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.
96. Mae'r ysgol yn rhan bwysig iawn o'i chymuned leol. Mae cymdeithasau lleol yn gwneud defnydd rheolaidd o ystafell gymunedol wedi ei lleoli yn yr ysgol.

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

97. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
98. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion yn nodwedd ragorol. Mae disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae perthynas arbennig o dda rhyngddynt a'r athrawon. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal a'r cyfarwyddyd mae'r ysgol yn ei ddarparu i'w plant.
99. Mae ethos gofalgwr yn yr ysgol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a lle cânt eu hannog i siarad am eu teimladau ac y gwyddant y bydd gwrandawriad da iddynt.
100. Rhoddir sylw da i faterion lles a gweithir yn agos gyda'r rhieni a gwahanol asiantaethau i geisio datrys iad i unrhyw broblem a gyfyd.
101. Mae trefniadau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion newydd yn setlo i fywyd a threfn yr ysgol, gan weithredu yn unol ag anghenion yr unigolyn, yn nodwedd ragorol.
102. Er nad oes cynlluniau ffurfiol ar gyfer gweithredu gofynion Addysg Personol a Chymdeithasol, rhoddir sylw da i'r maes ym mywyd a gwaith yr ysgol.
103. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol. Mae'r trefniadau yn cwrdd yn llawn â gofynion y Cod Ymarfer.
104. Adnabyddir anghenion ychwanegol disgyblion yn fuan a chedwir golwg rheolaidd ar eu cynnydd. Cedwir cofnodion manwl ac mae'r cynlluniau addysg unigol sy'n cynnwys targedau realistig wedi eu llunio ar gyfer y disgyblion perthnasol. Gweithredir yn drylwyr wrth adolygu'r cynlluniau hyn. Ymgynghorir gyda rhieni ac asiantaethau cynhaliol eraill yn effeithiol a chofnodir barn y disgybl lle'n briodol.
105. Mae'r cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau yn fanwl a thrylwyr. Cefnogir ei gwaith yn dda gan y llywodraethwr dynodedig ar gyfer y maes. Mae'r modd y gweithreda'r athrawon a'r staff cefnogi i alluogi'r disgyblion i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm, yn nodwedd ragorol.
106. Cedwir golwg cyson ar bresenoldeb disgyblion ond nid oes dull ysgol-gyfan o gofnodi galwadau ffôn gan rieni am absenoldeb. Mae'r strategaethau a ddefnyddia'r ysgol fel rhan o gynllun disgyblaeth gadarnhaol wedi arwain at ymddygiad da iawn gan ddisgyblion o bob oed a chefnidir.

107. Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau priodol i hyrwyddo iechyd a diogelwch ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Gwneir asesiadau risg cyn mynd ar ymweliadau addysgol.
108. Mae pob aelod o staff yn gyfarwydd â'r trefniadau amddiffyn plant ac yn delio'n briodol a sensitif ag unrhyw bryderon am les personol y disgyblion yn eu gofal.
109. Mae'r polisiâu cyfle cyfartal a chydraddoldeb hiliol ynghyd ag arferion dydd i ddydd yr ysgol, yn adlewyrchu ymroddiad y staff i sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bawb.
110. Cymerwyd camau rhesymol i sicrhau na fyddai unrhyw ddisgybl anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

111. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
112. Mae'r pennaeth yn cydlynu gwaith yr athrawon a'r llywodraethwyr yn effeithiol er mwyn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Cydrennir yr un gwerthoedd o ran ymddygiad a chydberthnasau a chydweithiant yn dda er budd a lles yr ysgol.
113. Cefnogir y pennaeth yn dda gan y staff addysgu. Cyfrannant yn sylweddol i ddatblygiad yr ysgol, ysgwyddant gyfran dda o gyfrifoldebau cwricwlaidd a chyflawnant eu rôl fel cydlynwyr pwnc yn effeithiol.
114. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal i bawb sydd yn yr ysgol. Cynhelir trafodaethau manwl gyda'r staff cyn gwneud penderfyniadau allweddol ac yn ddiweddar drwy'r Cyngor Ysgol, rhoddwyd cyfle i'r disgyblion leisio barn ynglŷn â materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u bywyd ysgol.
115. Rhoddir sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi ennill achrediad Marc Safon Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ynghyd â gwobr efydd Yr Ysgol Werdd. Mabwysiadwyd nifer o strategaethau 'Webster Stratton' gyda'r golwg at feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, ac mae'r ysgol wedi dechrau rhoi sylw i strategaethau ar gyfer datblygu medrau dysgu'r disgyblion ymhellach. Mae'r datblygiadau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Strategol Addysg yr Awdurdod Addysg Lleol.
116. Mae strategaeth effeithiol ar gyfer pennu targedau ysgol gyfan ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2. Mae targedau'r ysgol yn addas o ran eu her ac wedi'u seilio ar berfformiad tebygol disgyblion unigol. Sefydlwyd strategaethau effeithiol ar gyfer cynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd eu targedau unigol.
117. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a monitro perfformiad staff. Gweithredir trefniadau Rheoli Perfformiad yn unol â'r gofynion a defnyddir yr wybodaeth a gesglir ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach yr athrawon.
118. Gweithredir yn effeithiol er mwyn cyflawni gofynion lleihau llwyth gwaith athrawon ac mae trefniadau da ar gyfer sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu digonol i'r athrawon.

119. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn chwarae rôl weithredol yn ei datblygiad. Mae ganddynt wybodaeth dda am bolisiâu a chynlluniau'r ysgol. Cyflawnant eu rôl monitro ac arfarnu'n effeithiol drwy ymweld â dosbarthiadau'n rheolaidd. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd eu rôl fel cyfaill beirniadol i'r pennaeth ac mae ganddynt wybodaeth dda am flaenoriaethau'r ysgol.
120. Maent yn rhoi sylw da i'w cyfrifoldebau statudol.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

121. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Nid oedd arfarniad yr ysgol o bedwar pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ddigon treiddgar i ganfod bod diffygion yn y meysydd hynny.
122. Mae gan y pennaeth a'r staff wybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Mae barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol.
123. Mae trefniadau hunan-arfarnu cynhwysfawr wedi'u sefydlu yn yr ysgol ac fe'u defnyddir yn rheolaidd ar gyfer canfod cryfderau'r ysgol a pha agweddau sydd angen sylw pellach. Nid yw rhai arfarniadau yng Nghyfnod Allweddol 2, yn rhoi sylw digonol i safonau cyflawniad y disgyblion.
124. Mae'r drefn yn tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol o nifer o ffynonellau sy'n cynnwys archwilio gwaith disgyblion, dadansoddi asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, profion safonedig mewnol ac arsylwi gwersi. Gwneir defnydd effeithiol o ddata meincnodol er mwyn cymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim.
125. Darperir rhai cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu i hunan-arfarniad yr ysgol drwy'r Cyngor Ysgol ond nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer canfod barn y rhieni am yr ysgol.
126. Mae'r arfarniadau o'r Saesneg a dylunio a thechnoleg wedi arwain at godi safonau yn y ddau bwnc.
127. Roedd ansawdd yr adroddiad hunan-arfarnu cryno a gyflwynwyd i'r arolygwyr cyn yr arolygiad yn gyffredinol dda er bod diffygion ynddo mewn rhai adrannau. Mae elfennau arfarnol amlwg yn yr adroddiad ac mae ffocws clir ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Mae'r adroddiad yn glir, darllenadwy a chryno.
128. Mae'r Cynllun Datblygu o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol dros y tair blynedd nesaf. Mae'n cynnwys arfarniad trylwyr o weithrediad y Cynllun Datblygu blaenorol, noda'r tasgau sydd i'w cyflawni, y deilliannau disgwylidig a pha ddulliau monitro y bwriedir eu defnyddir. Clustnodir adnoddau dynol ac ariannol digonol ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau.
129. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r chwe Mater Allweddol a nodwyd yn Adroddiad 2000. Mae safonau Saesneg a dylunio a thechnoleg wedi gwella'n sylweddol, mae ansawdd cynllunio ac asesu bellach yn dda ac mae'r Cynllun Datblygu Ysgol cyfredol o ansawdd da.

**Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

130. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
131. Gyda chymhareb disgybl:athro o 10:1, sicrheir y caiff pob disgybl lefel uchel o gynhaliaeth yn y dosbarth. Mae ystod dda o brofiad ac arbenigedd gan yr athrawon ac mae'r arfer o gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer addysgu pynciau penodol yn galluogi'r ysgol i wneud defnydd mwy effeithlon o'u cryfderau.
132. Sefydlwyd yr amser cynllunio, paratoi ac asesu a ddynodir ar gyfer athrawon yn effeithiol, a thrwy'r trefniadau hyn manteisia'r ysgol hefyd ar arbenigedd ychwanegol ym maes celf. Mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar y safonau uchel a gyflawnir yn y maes.
133. Yn gyffredinol, mae cyflenwad digonol o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob ystod oedran ac ar gyfer pob pwnc. Mae'r adnoddau yn y dosbarthiadau ar gael yn hwylus i'r disgyblion, ond oherwydd prinder lleoedd storio addas, mae peth offer wedi ei storio yn llai hwylus y tu allan i'r dosbarth.
134. Mae cyflwr cyffredinol adeilad yr ysgol yn dda ac mae'r ystafelloedd o faint digonol i nifer presennol y disgyblion. Mae'r gofod helaeth sydd ar gael i'r plant dan bump yn sicrhau bod darpariaeth dda ar eu cyfer.
135. Yn gyffredinol, mae mynedfeydd a chyfleusterau'r ysgol yn addas ar gyfer sicrhau mynediad i'r anabl.
136. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystafelloedd dysgu. Nid oes neuadd yn yr ysgol ond manteisir ar gyfleusterau'r ganolfan hamdden leol ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol. Caiff tu fewn a thu allan yr ysgol ei chadw'n lân a thaclus.
137. Mae rhai diffygion cynnal a chadw. Mae lleithder yn treiddio drwy waliau toiledau ac mae rhai cerrig yn rhydd ar y wal sy'n amgylchynu cae'r ysgol. Mae'r arolygwyr yn rhannu pryderon y llywodraethwyr nad oes caets i rwystro mynediad at y tanc nwy ger mynedfa'r ysgol a'r briffordd.
138. Cyfoethogir amgylchedd yr ysgol gan arddangosfeydd chwaethus a diddorol sy'n cynorthwyo'r disgyblion yn eu dysgu.
139. Rheolir adnoddau'r ysgol yn effeithlon gan y pennaeth a'r corff llywodraethu er mwyn sicrhau gwerth am arian. Defnyddir adnoddau ariannol yr ysgol yn ddarbodus er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Dan-5 oed

#### Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

##### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

###### Nodweddion da

140. Gwna'r plant gynnydd da yn eu medrau llythrennedd cynnar. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda ar lafar. Maent bron i gyd yn datblygu geirfa gyda rhuglder cynyddol yn y Gymraeg ac maent yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau. Dangosant ddiddordeb mewn llyfrau gan wrando'n astud ar storïau a'u hailadrodd yn hyderus. Maent yn adnabod eu henwau ac yn dysgu eu hysgrifennu yn annibynnol.

###### Diffygion

141. Nid oes diffygion pwysig.

#### Datblygiad personol a chymdeithasol

##### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

###### Nodweddion da

142. Mae cydberthynas dda rhwng y plant a'i gilydd a rhyngddynt ag oedolion. Gweithiant yn rhwydd fel rhan o grŵp neu fel unigolion gan ganolbwyntio ar eu tasgau a'u profiadau chwarae am gyfnodau estynedig. Maent yn sensitif i anghenion a theimladau plant eraill ac mae eu hymddygiad yn dda. Ymagweddant tuag at ddysgu mewn ffordd hyderus a brwdfrydig a wynebant brofiadau newydd yn frwdfrydig.

###### Diffygion

143. Nid oes diffygion pwysig.

#### Datblygiad mathemategol

##### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

###### Nodweddion da

144. Mae mwyafrif da o'r plant yn gallu enwi rhifau hyd at ddeg yn hyderus ac maent yn dechrau cyfateb rhif, symbol a sain. Maent yn datblygu geirfa fathemategol syml a gallant enwi a disgrifio siapiau sylfaenol yn dda. Deallant ddiben arian a'r defnydd a wneir ohono.

###### Diffygion

145. Nid oes diffygion pwysig.

## **Gwybodaeth a dealltwriaeth y byd**

### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

#### **Nodweddion da**

146. Mae medrau arsylwi'r plant yn dda wrth iddynt chwarae yn y tywod a'r dŵr a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Maent yn siarad amdanynt eu hunain, eu teuluoedd a'u cartrefi yn hyderus. Trwy brofiadau ymarferol addas, gallant greu gwrthrychau gyda gwahanol fathau o flociau a chwarae'n ddychmygol gydag offer bach. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadur yn hyderus ac mae medrau rhai unigolion yn dda.

#### **Diffygion**

147. Nid oes diffygion pwysig.

#### **Datblygiad corfforol**

### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

#### **Nodweddion da**

148. Defnyddia'r plant offer mân megis pensel a siswrn, gyda rheolaeth gynyddol. Mae eu medrau corfforol yn datblygu ymhellach wrth iddynt chwarae gyda pheli ac offer addas a symudant yn hyderus mewn gwersi dawns.

#### **Diffygion**

149. Mae rhai unigolion yn ddihyder wrth bedlo beiciau ac wrth ymdrin â theganau mawr.

#### **Datblygiad creadigol**

### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

#### **Nodweddion da**

150. Mae'r plant yn gweithio'n effeithiol gyda phaent a chyfryngau eraill. Mwynhânt ganu rhigymau a chaneuon addas i'w hoedran, ac ymunant yn y symudiadau a chyfeiliant gydag offerynnau taro. Defnyddiant eu dychymyg yn dda wrth iddynt chwarae rôl mewn gwahanol sefyllfaoedd.

#### **Diffygion**

151. Nid oes diffygion pwysig.

## Cymraeg iaith cyntaf

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

### Nodweddion da

152. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn sgwrsio'n hyderus am faterion o fewn eu profiad. Maent yn cyfleu gwybodaeth syml yn glir, yn ynganu a goslefu'n ddealladwy yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau cywir. Erbyn B2, maent yn gwrando'n ofalus ac yn barod iawn i ateb a gofyn cwestiynau.
153. Mae mwyafrif helaeth disgyblion B2 yn darllen yn gywir ac yn ystyrllon gan arddangos dealltwriaeth dda o'r testun. Defnyddiant amryw o strategaethau i ganfod ystyr geiriau unigol. Maent yn darllen ar goedd yn rhugl ac yn gallu mynegi barn am fanylion y testun.
154. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu darnau byrion creadigol a ffeithiol yn effeithiol gan ddefnyddio geirfa addas. Mae ganddynt dealltwriaeth gynyddol o frawddegau ac atalnodi a defnyddiant briflythrennau a dyfynodau gyda pheth cywirdeb. Mae ganddynt afael dda ar ddilyniant a datblygant eu syniadau'n synhwyrol. Dangosant gynnydd priodol yn eu defnydd o gysyllteiriau ac ansoddeiriau.
155. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r disgyblion yn sgwrsio'n hyderus gan siarad yn glir a dealladwy. Maent yn ymateb yn fanwl wrth gyflwyno gwybodaeth ac yn mynegi barn yn glir mewn trafodaethau. Gwrandawant yn ofalus mewn trafodaethau dosbarth a grŵp gan ymateb drwy ofyn cwestiwn neu gynnig sylw. Erbyn B6, defnyddiant amrywiaeth cynyddol o ymadroddion â mesur da o gywirdeb.
156. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn ddarllenwyr annibynnol. Mae disgyblion B3 a B4 yn darllen gyda mynegiant a chywirdeb priodol ac yn gallu mynegi barn am fanylion arwyddocaol yn y testun. Mae nifer dda o ddisgyblion B6 yn ddarllenwyr brwd ac yn gallu trafod eu hoff awduron. Defnyddiant eiriaduron yn hyfedr a gallant chwilio am wybodaeth mewn llyfrau ffeithiol.
157. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n feddylgar gan ddangos ymwybyddiaeth briodol o'r angen i ysgrifennu mewn cywair sy'n addas i'r gynulleidfa. Yn ystod y cyfnod allweddol, gwnânt gynnydd da yn eu gallu i atalnodi o fewn brawddegau trwy ddefnyddio collnod a dyfynodau. Sillafant y mwyafrif da o eiriau cyfarwydd yn gywir.

### Diffygion

158. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae diffyg amrywiaeth yn ysgrifennu'r disgyblion ac nid yw nifer dda ohonynt yn treiglo'n gywir.

## Saesneg

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

159. Mae disgyblion yn dangos hyder cynyddol wrth fynegi eu hunain mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Gallant ganolbwyntio'n effeithiol wrth wrando ar eraill yn ystod trafodaethau dosbarth a grŵp ac mae nifer dda ohonynt yn siarad yn hyderus gyda'i gilydd a chydag oedolion. Gallant ddefnyddio iaith lafar yn effeithiol i bwrpasau ymholi, cyfleu gwybodaeth a mynegi barn. Erbyn B6, maent yn cyfrannu'n feddylgar i drafodaethau.
160. Trwy'r cyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn darllen amrywiaeth o lyfrau yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Erbyn B6, maent yn trin a thrafod cynnwys llyfrau yn ddeallus ac yn mynegi barn am waith gwahanol awduron. Gallant gip-ddarllen testun er mwyn dod o hyd i wybodaeth benodol a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r We ac o gyfeirlyfrau er mwyn cywain gwybodaeth. Darllenant amrywiaeth o destunau a chyfoethogant eu profiadau darllen wrth wrando ar lenyddiaeth a barddoniaeth safonol.
161. Gwna'r mwyafrif da o ddisgyblion B3 a B4 gynnydd priodol yn eu gwaith ysgrifenedig. Dangosant gynnydd addas yn eu gallu i frawddegau ac atalnodi'n gywir o fewn ystod cyfyng o ffurfiau.
162. Mae disgyblion B6 yn ysgrifenwyr hyderus. Mae ganddynt wybodaeth briodol o ramadeg, defnyddiant ffurfiau safonol enwau ac ansoddeiriau gyda chywirdeb addas ac mae ganddynt ddealltwriaeth gymwys o atalnodi. Maent yn cynhyrchu amrywiaeth gyfyngedig o waith ysgrifenedig creadigol a ffeithiol. Mae gallu'r disgyblion i amrywio brawddegau, i baragraffu ac i greu gwahanol effeithiau, yn gyffredinol dda.
163. Mae medrau llawysgrifen y disgyblion trwy gydol y cyfnod allweddol, yn dda.

### Diffygion

164. Mae'r ystod o waith ysgrifenedig a gynhyrchir gan y disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gyfyng, yn arbennig gwaith creadigol.

## Mathemateg

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

### **Nodweddion da**

165. Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 ddealltwriaeth dda o waith rhif. Maent yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau yn dda. Llwyddant i gyfrif ymlaen ac yn ôl mewn gwahanol gamau ac maent yn defnyddio strategaethau syml wrth ddatrys problemau gwaith pen ac ar bapur.
166. Maent yn adnabod gwerth gwahanol ddarnau o arian ac yn gallu cyfrifo cost eitemau a rhoi newid cywir. Gallant enwi dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn a'r tymhorau yn gywir. Maent yn deall ffracsiynau syml, megis hanner a chwarter.
167. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â mesuriadau ansafonol a safonol wrth fesur hyd a gallant ragdybio'r mesuriadau yn synhwyrol. Maent yn adnabod ac enwi siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn dda ac maent yn disgrifio eu nodweddion trwy ddefnyddio termau megis 'ymyl' ac 'wyneb' yn gywir.
168. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o werth lle a phatrymau rhif a defnyddiant strategaethau i ddatrys problemau gwaith pen yn chwim. Gallant gymhwyso eu gwybodaeth yn briodol i ddatrys problemau ar bapur.
169. Erbyn B6, mae dealltwriaeth y disgyblion o ffracsiynau, degolion a chanrannau yn dda. Defnyddiant unedau mesur safonol i fesur hyd yn briodol a gallant dehongli a chofnodi amser yn dda ar gloc pedair awr ar hugain. Mae dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn dda. Mae eu gwybodaeth am onglau yn briodol.
170. Trafoda'r disgyblion gwahanol fathau o ddata yn dda. Casglant a chyflwynant wybodaeth yn llwyddiannus gan ddefnyddio graffiau a thablau. Maent yn dehongli data ac yn dod i gasgliadau yn effeithiol.

### **Diffygion**

171. Nid oes diffygion pwysig.

## Gwyddoniaeth

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion.**

### Nodweddion da

172. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1, gyda chymorth athrawes, yn cynnig syniadau am sut i ddatrys problem ar ffurf cwestiwn y gellir ymchwilio iddo. Maent yn cynllunio ymchwiliad syml gan roi sylw priodol i'r offer fydd angen ei ddefnyddio. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ofynion prawf teg ac maent yn rhagfynegi canlyniad posibl i'r ymchwiliad gan gynnig rheswm am hynny. Cofnodant eu canlyniadau ar daflen bwrpasol gyda chywirdeb priodol ac maent yn crynhoi eu canfyddiad yn dda, mewn brawddeg syml.
173. Wrth drafod eu gwaith, defnyddia'r mwyafrif da o'r disgyblion y termau gwyddonol cywir i'w ddisgrifio.
174. Mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r rhaglenni astudio. Yn dilyn gwaith diweddar, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o nodweddion deunyddiau a gallant eu dosbarthu a'u didoli'n ôl y nodweddion hynny. Maent yn adnabod rhannau'r corff dynol a rhannau planhigion gwyrdd ac yn gwybod am yr amodau sydd eu hangen ar bethau byw i oroesi.
175. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn casglu gwybodaeth o ffynonellau megis testun a thechnoleg gwybodaeth ac yn cyflwyno eu gwaith mewn amrywiaeth da o ffyrdd, gan gynnwys graffiau, tablau a diagramau.
176. Mae ganddynt wybodaeth dda o'r rhaglenni astudio. Gallant drafod yn hyderus effaith ymarfer ar guriad y galon, swyddogaeth sgerbwdd wrth amddiffyn organau yn y corff dynol a phwysigrwydd gofalu am y dannedd a bwyta'n iach.
177. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau gwyddonol ar y cyd, gallant ragfynegi canlyniad posibl yn briodol ac arsylwi a chofnodi mesuriadau yn gywir. Mae ganddynt ymwybyddiaeth o ofynion prawf teg.

### Diffygion

178. Nid yw disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn gweithio'n ddigon systematig nac yn trefnu eu gwaith eu hunain yn ddigon annibynnol.
179. Nid yw disgyblion B6 yn cynnal ymchwiliadau gwyddonol sy'n ddigon estynedig i ddatblygu eu dealltwriaeth yn ddigonol. Mae diffyg manylder a thrylwyredd yn eu gwaith.
180. Ansicr yw gafael nifer dda o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar eirfa a thermâu gwyddonol.

## Technoleg gwybodaeth

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

### **Nodweddion da**

181. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwneud defnydd priodol o offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth gyda medrusrwydd cynyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Lluniant ddarnau o waith ysgrifenedig yn annibynnol ar y sgrin gan addasu'r testun yn ôl y gofyn. Gallant arbed gwaith, ei adfer a'i addasu cyn ei argraffu.
182. Dangosant feistrolaeth dda ar lygoden er mwyn symud delweddau ar y sgrin. Defnyddiant becynnau arlunio yn effeithiol i greu lluniau a phatrymau celfydd iawn a chyda cymorth, lluniant amrywiaeth o graffiau. Gallant reoli a chyfarwyddo'r cyrchwr ar y sgrîn yn effeithiol.
183. Gyda chymorth, gallant chwilio am wybodaeth ar y We.
184. Mae nifer dda o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ddefnyddwyr hyderus o gyfarpar a meddalwedd technoleg gwybodaeth. Maent yn cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol mewn gwahanol ffurfiau, gan gynnwys testun, graffiau a lluniau. Dangosant feistrolaeth dda o'r prosesydd geiriau wrth iddynt olygu ac addasu eu gwaith ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r We i chwilio am wybodaeth o wahanol safweoedd. Defnyddiant becynnau arlunio yn gelfydd i gynhyrchu lluniau a phatrymau o ansawdd da.
185. Mae gallu'r disgyblion i ddefnyddio rhaglenni bas data ar gyfer cofnodi, holi ac aildrefnu data yn dda.

### **Diffygion**

186. Nid oes diffygion pwysig.

## Dylunio a thechnoleg

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

#### Nodweddion da

187. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dda wrth wneud aseiniadau lle y byddant yn dylunio a gwneud cynhyrchion. Maent yn ymchwilio trwy edrych ar enghreifftiau o fathau o gynhyrchion er mwyn datblygu syniadau ac yn cofnodi eu syniadau ar ffurf llun cyn dewis y syniad mwyaf addas ar gyfer y dasg. Maent yn cofnodi eu barn am lwyddiant eu gwaith ac yn nodi sut y gellir ei wella.
188. Maent yn cydosod, asio a chyfuno ystod o ddeunyddiau a chydrannau, gan gadw golwg ar orffeniad y cynnyrch, yn dda. Defnyddiant fecanweithiau syml yn effeithiol yn eu cynhyrchion. Maent yn defnyddio offer yn ofalus wrth ymarfer medr penodol i'w defnyddio fel rhan o'r broses o wneud gwrthrych.
189. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymchwilio yn drylwyr i wneuthuriad gwrthrychau ac yn defnyddio eu canfyddiadau yn effeithiol wrth greu eu gwrthrychau eu hunain.
190. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion tasg a gallant ddangos ar eu cynlluniau sut maent yn goresgyn anawsterau sy'n codi yn ystod y broses gwneud. Maent hefyd yn rhoi sylw priodol i agwedd benodol o'r cynllun sydd angen manylu arni. Maent yn gwerthuso eu gwaith yn wrthrychol gan ystyried gofynion y dasg.
191. Defnyddiant ystod briodol o offer i fesur, marcio, torri a siapio deunyddiau.
192. Wrth adeiladu pont, dangosa'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r hyn sy'n effeithio ar gryfder strwythurau ac adeiladau. Gwnânt ddefnydd effeithiol o gydrannau trydanol i greu effeithiau arbennig yn eu cynhyrchion.
193. Defnyddiant feddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol er mwyn rheoli symudiadau gwrthrychau.

#### Diffygion

194. Nid oes diffygion pwysig.

## Hanes

### **Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

195. Mae dealltwriaeth disgyblion y ddau gyfnod allweddol wedi ei gyfoethogi gan ymweliadau a chyfraniadau ymwelwyr.
196. Mae ymwybyddiaeth disgyblion Cyfnod Allweddol 1 o dreigl amser yn cynyddu'n dda wrth iddynt gymharu ffyrdd o fyw yn y gorffennol gyda'u bywydau hwy heddiw. Defnyddiant eirfa briodol i ddisgrifio'r gorffennol. Maent yn didoli arteffactau fel rhai yn perthyn i gyfnod y gorffennol a rhai sy'n perthyn i'r presennol.
197. Wrth iddynt astudio dulliau golchi dillad yn y gorffennol, dangosant ddealltwriaeth dda am fywyd bob dydd ers talwm ac amodau byw pobl mewn cyfnod penodol.
198. Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 wybodaeth dda am wahanol gyfnodau hanesyddol a gallant eu gosod ar linell amser yn briodol. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa addas, megis canrif a degawd, yn dda wrth ddisgrifio trefn amser.
199. Maent yn defnyddio enghreifftiau o amodau byw pobl mewn cyfnod penodol yn hyderus wrth gymharu nodweddion y gorffennol a'r presennol. Wrth ddehongli'r gorffennol, mae eu dealltwriaeth o achos ac effaith ac o wahanol ddehongliadau posibl o'r un digwyddiad yn briodol.

#### **Diffygion**

200. Nid yw disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymholi i hanes ac yn defnyddio dogfennau hanes yn ddigonol.

## Daearyddiaeth

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3 – Nodweddion da yn gorbwysio diffygion

#### Nodweddion da

201. Mae medrau ymholi daearyddol disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dda. Maent yn trafod cwestiynau daearyddol am eu hardal leol yn hyderus ac yn cyflwyno gwybodaeth trwy gyfrwng llun a thestun yn effeithiol wrth lunio pamffled gwybodaeth am eu pentref.
202. Yn dilyn taith gerdded o gwmpas y pentref, maent yn trafod nodweddion ffisegol a rhai dynol yn hyderus. Cofnodant eu harsylwadau yn dda trwy luniau llawrydd, ar fapiau darluniadol llawrydd a rhai wedi eu llunio trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Gwnânt ddefnydd priodol o symbolau i ddehongli eu mapiau.
203. Mae ganddynt wybodaeth dda am eu hardal leol a gallant gymharu nodweddion eu pentref gyda nodweddion ardal arall gan ddefnyddio geirfa ddaearyddol i nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y ddwy ardal.
204. Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 wybodaeth dda am enwau a lleoliad gwledydd Ewrop ac Affrica ac o enwau'r cyfandiroedd a'r cefnforoedd ar fap o'r byd. Gallant leoli llinell y cyhydedd a llinellau'r trofannau yn briodol ar fap a gwyddant am rai o nodweddion daearyddol a hinsawdd anialwch y Sahara. Gallant leoli Nebo yn gywir ar fap o Gymru.
205. Maent yn gyfarwydd ag wyth pwynt y cwmpawd ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ddefnydd cyfesurynnau mewn gwaith mapio.
206. Mae ganddynt wybodaeth addas am Lesotho fel gwlad sy'n datblygu'n economaidd.
207. Trwy eu hastudiaeth o ailgylchu a gwaith maes yn cynnwys plannu coed mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o gynladwyedd.

#### Diffygion

208. Nid yw medrau ymholi daearyddol disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ddigonol cadarn ac nid ydynt yn trin ystod ddigon eang o ffynonellau o wahanol fathau i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu tystiolaeth eu hunain yn annibynnol.
209. Nid oes gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ddealltwriaeth digon trylwyr o ddaearyddiaeth eu hardal leol ac ni ddefnyddiant yr eirfa berthnasol wrth gymharu nodweddion daearyddol yr ardal honno gydag ardal arall.
210. Ansicr yw meistrolaeth nifer o'r disgyblion B6 o'r medrau i wneud defnydd llawn o fapiau Ordnans.

<b>Celf</b>
-------------

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

211. Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn cynhyrchu gwaith graenus sydd o safon uchel iawn. Defnyddiant ystod eang o ddefnyddiau, offer a thechnegau er mwyn creu gwahanol effeithiau sy'n hynod drawiadol.
212. Mae gallu rhagorol disgyblion i gyfuno nifer o gyfryngau mewn un gwaith yn gryfder amlwg yn y ddau gyfnod allweddol.
213. Cynhyrchwyd gwaith hynod o ddiddorol yn y ddau gyfnod allweddol ar gelf Affricanaidd. Dengys y gwaith ymwybyddiaeth ragorol o elfennau celf megis llinell, tŷn, patrwm a gwead.

**Nodweddion da**

214. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn arbrofi gydag amrediad eang o gyfryngau wrth luniadu, peintio, printio a chreu gwaith tri dimensiwn. Siaradant yn ddeallus am waith eu hunain ac am waith artistiaid eraill, gan gynnwys artistiaid Cymreig.
215. Defnyddiant amrediad eang o dechnegau a'u cymhwyso i gyfarfod â gofynion gwahanol dasgau. Cymysgant liwiau a deunyddiau'n llwyddiannus iawn i greu gwahanol effeithiau. Ar sail arsylwadau manwl, gwnânt luniadau llawrydd o ansawdd uchel iawn ac ymatebant yn ddychmygus i wahanol symbyliadau.
216. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gweithio gydag ystod eang iawn o ddeunyddiau gan ddangos dealltwriaeth gadarn o linell, lliw, patrwm a gwead. Maent yn arbrofi gyda nifer o wahanol brosesau a thechnegau ar ystod o raddfeydd.
217. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o artistiaid Cymreig ac o rai o artistiaid mawr y byd a gallant fanylu ar y cyfryngau a'r arddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt yn eu gwaith.
218. Trwy gydol y cyfnod allweddol, bydd disgyblion yn trafod, gwerthuso a gwella'u gwaith yn gyson.

**Diffygion**

219. Nid oes diffygion pwysig.

## Cerddoriaeth

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwysio diffygion.**

### Nodweddion da

220. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod amrywiaeth o ganeuon a hwiangerddi ac maent yn eu canu'n swynol. Fe gaiff y geiriau eu hynganu'n eglur gyda mynegiant. Defnyddiant ran-ganu syml i greu a chyfleu naws yn effeithiol.
221. Gallant enwi a disgrifio gwahanol offerynnau a gallant eu defnyddio i gadw curiad cyson ac i gynnal rhan unigol mewn grŵp.
222. Maent yn gyfarwydd â'r termau sy'n disgrifio elfennau cerddorol megis cyflymdra a deinameg ac maent yn eu defnyddio'n hyderus wrth drin a thrafod caneuon penodol. Maent yn deall yr effaith a gaiff yr elfennau hynny ar ganeuon a cherddoriaeth, a sut y gallant eu haddasu i bwrpas penodol.
223. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae disgyblion yn canu amrywiaeth eang o ganeuon addas. Pan fo'r canu ar ei orau, er enghraifft wrth ganu cân Ffrengig, dangosant reolaeth dda o gyflymder a brawddeg. Wrth ganu tôn gron, llwydda mwyafrif da o'r disgyblion i gynnal eu rhan hwy yn gywir.
224. Mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar gerddoriaeth ac yn gallu adnabod y gwahanol offerynnau ynddo yn ôl eu sain. Gallant ddadansoddi gwahanol elfennau o gerddoriaeth clasuron a'u cofnodi ar ffurf sgôr graffeg syml gan ddangos ymwybyddiaeth dda o draw, rhythm a gwead. Maent yn disgrifio'r naws a'r awyrgylch a grëir gan y gerddoriaeth yn aeddfed.
225. Gall nifer dda o'r disgyblion drafod cerddoriaeth a cherddorion Cymreig yn dda.

### Diffygion

226. Mae safon canu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn anwastad ac yn arddangos diffyg rheolaeth ar draw, parhad, ansawdd a deinameg.
227. Mae gallu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i ddefnyddio offerynnau cerdd ar gyfer cyfansoddi a pherfformio, yn gyfyng.

## Addysg gorfforol

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

#### Nodweddion da

228. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gwisgo'n addas ar gyfer y gweithgareddau ac yn deall pwysigrwydd gweithio'n ofalus a diogel. Maent yn rhoi sylw priodol i gynhesu'r corff ar ddechrau gwrs ac ymlacio ar y diwedd. Maent yn ystyriol o ddiogelwch disgyblion eraill wrth ddefnyddio gofod ac maent yn ymwybodol o effaith llesol ymarfer y corff.
229. Mewn gwrs symud a dawn, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn ymchwilio eu syniadau yn dda wrth greu gwahanol symudiadau cryf ac ysgafn. Maent yn amrywio siâp a lefel y corff a hefyd cyflymdra yn dda wrth deithio. Maent yn dangos rheolaeth ar y corff ac yn gwneud defnydd effeithiol o lonyddwch yn eu gwaith.
230. Wrth wrando ar ddarn o gerddoriaeth mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i'r hyn a glywant ac yn amrywio a mireinio eu syniadau yn ddychmygus wrth ddechrau creu dilyniant o symudiadau. Maent yn barod iawn i ddangos eu syniadau i weddill y grŵp ac maent yn gwerthuso eu gwaith yn naturiol gyda'i gilydd er mwyn gwella perfformiad.
231. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn arddangos medrau da mewn gwrs gemau. Maent yn gweithio yn ddisgybledig wrth ymarfer mewn parau a grwpiau bach. Maent yn dangos meistrolaeth dda ar wahanol ddulliau anfon pêl ac yn trafod gyda'i gilydd sut i wella eu perfformiad.
232. Wrth drosglwyddo eu medrau i sefyllfa gêm mae'r disgyblion yn gweithio'n egniol a chaled. Maent yn chwaraewyr brwdfrydig ac yn gystadleuwyr teg. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ofynion gweithio mewn tîm, megis cyfathrebu a symud yn gyflym i wagle.

#### Diffygion

233. Nid oes diffygion pwysig.

## Addysg grefyddol

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3 – Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

#### Nodweddion da

234. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae gan y disgyblion wybodaeth gynyddol o'r Beibl fel llyfr sanctaidd ac maent yn gyfarwydd â damhegion a gwyrthiau Iesu a'r negeseuon sydd y tu cefn iddynt. Maent yn ymwybodol o'r prif wyliau crefyddol a gallant drafod rhai o'r prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy.
235. Maent yn deall pwysigrwydd cael rheolau o fewn crefyddau a gallant drafod rheolau'r ysgol mewn modd aeddfed.
236. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am Iddewiaeth. Gallant ddisgrifio'n fanwl arferion a defodau'r grefydd ac enwi'r arteffactau cysylltiedig gyda manwl gywirdeb.
237. Gallant fyfyrion ar eu profiadau a mynegi eu dyheuadau mewn gweddïau byrfyfyfyr syml.
238. Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 wybodaeth briodol o'r Beibl fel llyfr sanctaidd a gwyddant am waith William Morgan a thaith Mari Jones i'r Bala. Maent yn gwybod bod fersiynau gwahanol o'r Beibl a gallant gymharu rhai ohonynt a thrafod beth sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt.
239. Maent yn deall pwysigrwydd cael rheolau o fewn crefyddau a gallant drafod rheolau'r ysgol mewn modd aeddfed. Gwyddant am waith nifer o gymwynaswyr mawr y byd ac fe gyfrannant yn hael at gasgliadau elusenol.

#### Diffygion

240. Yng Nghyfnod Allweddol 2, nid oes gan y disgyblion ddealltwriaeth ddigonol o grefydd arall heblaw Cristnogaeth.
241. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 o nodweddion ac arferion addoldai yn arwynebol.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Nebo, wrth astudio canlyniadau'r arolygiad, yn falch o ddatgan bod yr adroddiad yn un teg, cadarnhaol ac adeiladol.

Mae barn yr arolygwyr yn cyd-fynd bron yn union â barn yr ysgol ynglŷn â'r cwestiynau allweddol sydd yn y ddogfen hunan-arfarnu.

Roedd yr arolygiad yn broses ddatblygiadol a chafwyd deialog broffesiynol a ffrwythlon. Cafwyd cyfle i arddangos y dystiolaeth angenrheidiol, i gadarnhau safbwynt ac i leisio barn ar agweddau penodol. Manteisiwyd ar y cyfle hwn i arddangos holl rinweddau'r ysgol. Teimlwyd bod rôl yr enwebai wedi bod yn werthfawr dros ben yn y broses.

Roedd yr arolygiad yn cydnabod nifer helaeth o elfennau cadarnhaol. Rhoddwyd pwyslais ar lwyddiant y disgyblion wrth iddynt ddatblygu eu hyfedredd dwyieithog. Nodwyd hefyd ymddygiad da y disgyblion a'u bod yn ystyriol ac yn gwrtais. Cydnabyddir ansawdd uchel yr addysgu ac mae hyn yn haeddiannol wrth ystyried ymroddiad a medrau ein hathrawon.

Mae'r ffocws ar safonau a chyrhaeddiad yn glir. Cydnabyddir y safonau uchel a welir yn y Blynyddoedd Cynnar ac rydym yn ymfalchïo'n fawr yn hyn. Mae nifer helaeth o agweddau lle rydym wedi cyrraedd safonau da, a theimlwn fel ysgol y gellir yn awr anelu at ddatblygu ac ymestyn ymhellach. Cytunwyd bod angen gwella ar rai agweddau: yn eu mysg y cyfle i'r disgyblion weithio'n fwy annibynnol, ysgrifennu'n fwy estynedig a datblygu medrau gwyddonol yng Nghyfnod Allweddol 2, ac i ymestyn y disgyblion wrth iddynt gyfansoddi cerddoriaeth. Rydym yn ffyddiog y gallwn weithio ar yr argymhellion yn yr adroddiad ac wrth lwyddo i gyflawni hyn, bydd yr ysgol yn anelu at nod ehangach a fydd yn her i ni symud ymlaen i gyrraedd safonau uwch.

Yn Ysgol Nebo, ceir teimlad gwirioneddol o falchder ym mhob peth a wnawn. Ein bwriad yw anelu'n uchel ac mae'r adroddiad yn adlewyrchu hyn. Rhoddodd yr arolygiad gyfle i'r ysgol edrych yn fanwl ar bob agwedd o'i bywyd a'i gwaith, ac roedd paratoi'r adroddiad hunan-arfarnu yn broses gadarnhaol wrth inni nodi holl lwyddiannau'r ysgol hyd yma. Roedd hyn yn adlewyrchu'r diwylliant o hunan-arfarnu sy'n rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae'r arolygiad wedi atgyfnerthu ein cryfderau ac wedi nodi'n glir y meysydd lle medrwn ddatblygu ymhellach

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Nebo
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3 -11 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Nebo, Penygroes, Gwynedd
Cod post	LL54 6EE
Rhif ffôn	01286 881273

Pennaeth	Mr Arwyn Ellis
Dyddiad penodi	Ionawr 1990
Cadeirydd y llywodraethwyr	Cynghorydd O P Huws
Arolygydd cofrestredig	Wil Williams
Dyddiadau'r arolygiad	13 – 15 Mawrth, 2006

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	3.5	1	3	4	4	3	0	5	23.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	2	.3	2.3

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	10:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	7:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	10
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2005	Nid oedd plant meithrin yn yr ysgol	93%	92%
Haf 2005		93%	93%
Hydref 2005	92%	89.4	95.5

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	34%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

### Atodiad 3

#### Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

<b>Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005</b>	Nifer y disgyblion yn B2	4
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno.		

#### Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

<b>Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005</b>	Nifer y disgyblion yn B6	5
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir.		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl Asesiad Athro			
Yn yr ysgol	33%	Yng Nghymru	72%

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd gyfanswm o saith niwrnod arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 21 o wersi neu wersi rhannol;
- pob dosbarth;
- addoli ar y cyd; ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn i'r arolygiad ddechrau; ac
- y pennaeth, athrawon, staff cymorth a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- yr 11 ymateb i holiadur rieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith disgyblion yn y gorffennol a heddiw.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ar ôl yr arolygiad.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod Tîm	Cyfrifoldebau
Mr Wil Williams Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun; Crynodeb; Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1, 5, 6 a 7 Dan 5, Cymraeg, Saesneg, technoleg gwybodaeth, cerddoriaeth, celf, addysg grefyddol
Mr Trebor Roberts Arolygydd Tîm	Cwestiynau allweddol 2, 3 a 4 Mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, hanes, daearyddiaeth, addysg gorfforol
Mr John Roberts Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7
Mr Arwyn Ellis	Enwebai

**Contractwr** Cwmni Cynnal  
Uned Dechnoleg  
Stryd y Bont  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7HL

### Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, y staff a'r disgyblion am eu cydweithrediad drwy gydol yr arolygiad.